

# Pecyn Adnoddau Addysg – Gwers 3

Cael eich ysbrydoli gan Dylan Thomas – Rhan 1

## Cyfnod Allweddol 2

Hanes a Llythrennedd

Edrych ar sut mae  
Dylan Thomas yn cymryd  
y darlennydd ar daith



## Nodiadau rhagarweiniol

Mae Dylan Thomas yn cymryd y darlennydd ar daith gydag e yn ei farddoniaeth a'i ryddiaith.

Mae'r wers hon yn edrych ar y ffordd mae ei ddewis o eiriau'n gwneud hyn yn bosibl.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm – Saesneg

**Llafaredd – Sgiliau (5)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau brawddegol a geirfa yn gywir, gan gynnwys ymadroddion sy'n eu galluogi i drafod eu gwaith.

**Darllen – Sgiliau (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion adnabod a deall nodweddion gwahanol ffurfiau o safbwynt iaith, strwythur a chyflwyniad.

**Ysgrifennu – Sgiliau (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddewis a defnyddio geirfa addas.

**Ysgrifennu – Sgiliau (5)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio ffurfiau Saesneg safonol: enwau.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm – Cymraeg

**Llafaredd – Ystod (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion weithio'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelodau o ddosbarth.

**Llafaredd – Ystod (7)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio ieithoedd drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill.

**Ysgrifennu – Sgiliau (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddewis a defnyddio geirfa briodol ac iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau.

**Ysgrifennu – Ystod (3)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd.

**Ysgrifennu – Ystod (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth eang o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt.

### Y Fframwaith Llythrennedd

**Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm** – trefnu syniadau a gwybodaeth – ystyr, dibenion, darllenwyr – ysgrifennu gyda diben eglur, gan ystyried y darlennydd, e.e. drwy ddewis geirfa a dyfeisiau cyflwyno addas (Bl.5); adfyfrio, golygu ac ailddrafftio er mwyn gwella eu gwaith ysgrifenedig (Bl.6).

### Trawsgwricwlaidd / Y Cwricwlwm Cymreig

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 7-14 oed ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

### Cysylltiadau â'r Fframwaith Sgiliau – Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm

Ysgrifennu – Cyfleu syniadau ac emosïynau – Cyfleu syniadau, emosïynau a gwybodaeth drwy waith mwy cymhleth mewn ystod o gyfryngau.

### Symbyliadau

Dyfyniadau o gerddi Dylan Thomas - 'Poem in October\*', 'On His Birthday\*', 'Over Sir John's Hill'\* a Fern Hill / dyfyniadau o 'Under Milk Wood'\*

Prosiectau Estyn Allan Cadw ar gyfer ysgolion – 'Dros Ysgwydd Dylan', 'O Dan Bin Ysgrifennu Dylan' ac 'Ym Mhoced Dylan'.

Sylwer: Bydd angen i'r athro dosbarth gael gafael ar bopeth a nodir â \*.

### Adnoddau

Cyflwyniadau PowerPoint – 'Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan 1', 'Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan 2', 'Taflen Waith Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan', 'Ysgrifennu Gyda Dylan: Taflen Geiriau Defnyddiol' (3 fersiwn ar gael).

### Amcan(ion) Dysgu

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Dylan Thomas yn cymryd gofal wrth ddewis geiriau ar gyfer dechrau llinellau o farddoniaeth a brawddegau sy'n cymryd y darlennydd ar daith.

*Dylan Thomas*

### **Meini Prawf Llwyddiant – Erbyn diwedd y wers, bydd y disgyblion yn gallu**

- Ysgrifennu brawddegau disgrifiadol byr gan ddefnyddio amrywiaeth o eiriau megis over, under, through a.y.b. sydd wedi cael eu hysbrydoli gan waith Dylan Thomas.

### **Gweithgaredd Dechreuol – y dosbarth cyfan – 10 munud**

- Darllenwch benillion agoriadol 'Over Sir John's Hill' – Cwestiwn Allweddol: Sut mae'r gerdd yn dechrau?
- Cyflwyniad PowerPoint – 'Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan 1' – Dangoswch y cyflwyniad a thrafodwch sut mae Dylan yn dewis geiriau'n ofalus er mwyn cymryd y darlennydd ar daith gydag e.

### **Archwilio – Gwaith Pâr / Gwaith Grŵp – 30 munud**

- Gweithgaredd ysgrifennu disgrifiadol gan ddefnyddio Taflen Waith **Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan Thomas** gyda'r Pecyn Ffotograffau Talacham. Byddai Dylan wedi bod yn gyfarwydd iawn â'r golygfeydd sydd yn y pecyn, sy'n cynnwys golygfeydd o'i gartref yn y Tŷ Cychod, Castell Talacham a'r aber. Gwaith Pâr neu Waith Grŵp yn unol â dymuniad yr athro. Ysgrifennwch ddisgrifiadau byr, gan ddewis geiriau megis over, under a.y.b. ar gyfer dechrau pob disgrifiad. Anogwch y disgyblion i ddefnyddio dysgu blaenorol yn y disgrifiadau. Sylwer: mae taflen Dylan Thomas: Geiriau Defnyddiol ar gael er mwyn rhoi cymorth gyda'r gweithgaredd hwn.
- Argymhellir adolygu ganol y wers – er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn llwyddo i ddewis geiriau sy'n cymryd y darlennydd ar daith – efallai y bydd angen ychydig o drafodaeth gyda'r dosbarth cyfan a / neu roi sylw i unigolion er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall yr hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud.

### **Sesiwn gyflawn – y dosbarth cyfan – 10 munud**

Adolygwch yr ysgrifennu gan ddefnyddio'r cyflwyniad, **Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan 2** – Mae hwn yn gyfle i'r disgyblion rannu'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni. Sylwer: Mae'r ffotograffau sydd yn y cyflwyniad PowerPoint yn cyfateb i'r rhai sydd yn y Pecyn Ffotograffau.

### **Estyniad – Cofnodi'r Disgrifiadau**

Llwythwch ffotograffau '**Cael Eich Ysbrydoli Gan Dylan**' ar iPad neu dechnoleg tabledi arall.

Defnyddiwch ap megis '**Puppet Pals**' ar gyfer cofnodi disgrifiadau ar y ffotograffau.

### **Nodiadau ychwanegol**

*Dylan Thomas*